# GRIFFITH, GRIFFITH WYNNE (1883 - 1967), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** Griffith Wynne Griffith
**Dyddiad geni:** 1883
**Dyddiad marw:** 1967
**Priod:** Grace Wynne Griffith (née Roberts)
**Plentyn:** Elizabeth Grace Hunter (née Griffith)
**Plentyn:** Douglas Griffith
**Plentyn:** Gwilym Wynne Griffith
**Plentyn:** Huw Wynne Griffith
**Rhiant:** Judith Griffith
**Rhiant:** John Griffith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganed 4 Chwefror 1883 ym Mrynteci, Llandyfrydog, Môn, mab John a Judith Griffith. Bu'n gweithio ar fferm ei dad pan oedd yn ieuanc, ond yn ddeunaw oed aeth i ysgol Cynffig Davies ym Mhorthaethwy, a'i wyneb ar y weinidogaeth. Derbyniwyd ef yn bregethwr gan gwrdd misol Môn yn 1903. Addysgwyd ef yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor (lle graddiodd mewn athroniaeth), ac yng ngholeg diwinyddol y Bala (lle graddiodd mewn diwinyddiaeth). Bu hefyd am dymor (1909) yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Ordeiniwyd ef yn 1911, a bu'n gweinidogaethu ym Mryn-du, Môn (1910-13), Douglas Road, Lerpwl (1913-23), Y Tabernacl, Porthmadog (1923-29), a'r Tabernacl, Bangor (1929-46). Priododd, 1914, Grace Roberts o'r Dwyran, Môn; ganwyd iddynt dri fab ac un ferch. Wedi ymddeol bu'n byw yn Llanfair Pwllgwyngyll. Bu farw 2 Chwefror 1967 yng nghartref ei fab, Huw Wynne Griffith , gweinidog (MC), Aberystwyth, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent capel y Dwyran, Môn.

Yr oedd yn bregethwr coeth a grymus yn ei ddydd, a datblygodd yn un o arweinyddion ei Gyfundeb. Bu'n llywydd Sasiwn y Gogledd (1952), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1959). Traddododd y Ddarlith Davies yn 1942, a gyhoeddwyd dan y teitl *Datguddiad a datblygiad* (1946). Ef oedd prif olygydd *Y Cyfarwyddwr* (1929-30), a bu'n un o isolygyddion yr un cylchgrawn, 1931-44. Bu hefyd yn olygydd *Y Goleuad* (1949-57). Ef oedd ysgrifennydd y pwyllgor a baratôdd ' *Y Gyffes Fer* ', a'r *Llyfr gwasanaeth* (1958). Bu'n aelod o bwyllgor y cyfieithiad newydd o'r Beibl, cyngor a llys Coleg y Brifysgol, Bangor. Cyfrannodd ysgrifau i'r *Geiriadur Beiblaidd* (1926), ac i'r *Bywgraffiadur* Yr oedd ynddo anian llenor, a chyhoeddodd ddwy nofel, sef *Helynt Coed y Gell* (1928) a *Helynt Ynys Gain* (1939). Cyhoeddodd nifer o lyfrau eraill: *Paul y cenhadwr* (1925), *Rhai o gymeriadau'r Hen Destament* (1927), *Y Groes* (1943), *The wonderful life* (1941), cyfrol o bregethau, *Ffynnon Bethlehem* (1948), a *Cofiant cenhades (Helen Rowlands)* (1961). Yn ei flynyddoedd olaf cyfansoddodd a throsodd gryn lawer o emynau - cyhoeddodd gasgliad ohonynt dan y teitl *Odlau'r Efengyl* (1959). Ymddangosodd penodau o'i atgofion yn *Y Goleuad*, ac ym mlwyddyn ei farwolaeth cyhoeddwyd y rheini dan y teitl *Cofio'r blynyddoedd*. Rhwng popeth a'i gilydd bu'n rhyfeddol o brysur, a cheid graen bob amser ar ei gynhyrchion fel pregethwr ac awdur.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Cofio'r blynyddoedd* (1967), passim

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1968, 280-1

gwybodaeth gan ei fab, Huw Wynne Griffith, Aberystwyth

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29301546

Wikidata: Q5608886

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu